# Crewyr Cadw: Comics

# GWRTHRYFEL MERTHYR




Cyfarwyddwr Celf: Nick Price
Inciwr: Nick Price
Cynhyrchwyd gan: Turnip Starfish Limited

# Gwrthryfel Merthyr






Pwy sy'n dod?
Lewis Lewis, Dic Penderyn...
Mi oedd Matthew John yno hefyd, chi'n gwybod, mab y gweinidog... llwyth ohonyn nhw!
Ma' pethe am droi'n flêr, byt!
Dewch o'ma.



Lawr â'r Toriaid!
Talwch gyflog teg i ni!
Lawr â'r Toriaid!
Talwch gyflog teg i ni!
Dyn ni eisiau cyflog teg!
Torrwch eu ffenestri!
Cyflog teg i bawb!
CLEC!


Tic, Toc,
Tic, Toc,
Castell Caerdydd – Preswylfa'r 2il Ardalydd Bute.
Mae'n ddrwg gen i'ch trafferthu, Syr.
Mae rhywfaint o bost wedi cyrraedd.
Ymmm...
Da iawn, Collins. Dewch ag ef yma.


Beth?
Gwrandewch ar hyn. Llythyr oddi wrth Josiah Guest ydyw.
Un o'r meistri haearn mwyaf blaenllaw ym Merthyr Tudful?
Ie, ie...
Fy annwyl Arglwydd Bute, yr wyf yn ysgrifennu i'ch hysbysu ynglŷn â'r 9fed o Fai, 1831...
Gorymdeithiodd criw o'm gweithwyr i Ferthyr, a llosgi delwau o Doriaid amlwg yn y strydoedd.
BETH!
Ie, mae'n mynd ymlaen...
Maent yn protestio dros ddiwygio ein diwydiant haearn. Aethant ymlaen i dorri ffenestri tai oedd yn eiddo i Doriaid hysbys.
Beth! Ga i olwg?
Wrth gwrs.
Fel cynrychiolydd ffyddlon y Toriaid a thirfeddiannwr, teimlais y dylech gael gwybod!
Jiw, jiw.


Ni allaf ddweud fy mod yn synnu.
Mae'r diwydiant haearn wedi ffynnu ar ddarparu arfau ar gyfer Rhyfel Napoleon.
A gan fod y rhyfel bellach wedi dod i ben, roedd yn sicr o effeithio ar y galw.
Tybed sut hwyl mae'r meistri haearn eraill yn ei chael?
Fel William Crawshay o Gyfarthfa.
Wyddoch chi eu bod yn ei alw'n y Brenin Haearn!
Gwaith Haearn Cyfarthfa – Merthyr Tudful – Y Brenin Haearn.
Crawshay, allwch chi ddim gostwng cyflog y gweithwyr!
Dw i wedi dweud wrthych chi o'r blaen, Dic Penderyn.
Fi yw'r unig feistr haearn sydd heb ostwng cyflog y gweithwyr eto.
Rwy'n addo gwneud fy ngorau drosoch chi i gyd...
Dewch mlân, bois.
Ond, syr! Rydyn ni eisoes wedi bwriadu torri'n ôl ar eu cyflog!
Rwy'n gwybod, rwy'n gwybod.
Ond dyn nhw'm yn gwybod hynny eto!


Rwy'n ofni mai'r orymdaith hon y mae Josiah Guest yn ysgrifennu amdani yw'r dechrau ar wrthryfela gan y gweithwyr!
Oni oedd y gweithwyr yn cael eu hanfon i'r carchar neu eu cludo i Awstralia am streicio?
Oedden, ond fe wnaethom ni ddiddymu'r Ddeddf Cyfuno.
Heb y Ddeddf Cyfuno ar waith, nid oes dim i atal y gweithwyr rhag streicio.
Mae'n rhaid inni gynyddu ein gohebiaeth â'r holl feistri haearn, Collins, felly os bydd gwrthdaro'n codi, gallaf alw am gefnogaeth iddynt.
Gwaith Haearn Dowlais – ger Merthyr Tudful
Dyma ti, Dai, dyma dy gyflog am yr wythnos.
Beth yw hyn?
Pam nad 'ych chi'n ein talu ni mewn arian go iawn nawr?
Beth?
Tocynnau yw'r rhain, gallwch eu defnyddio yn siopau'r dref sy'n eiddo i'r meistri haearn.
Cymerwch ef neu gadewch ef, Dai, dyna'r cyfan sydd gennym i chi.



Paa!
DAD! DAD!
Beth sy'n bod, Morgan?
Mae dynion yn y tŷ...
dewch yn gloi!
Mae'n ddrwg gen i, Mrs Jones, mae gennym ni bob hawl i'w gymryd!
Beth chi'n wneud yma?!
Beilïaid 'dyn nhw, Dai, wedi'u hanfon o'r llysoedd; 'dyn ni'n hwyr 'da'r rhent.
Sut alla i dalu'r rhent pan fydda i'n cael tocynnau o'r gwaith?
Nid ein problem ni yw hynny, boi.
Beth sy'n mynd mlân fan hyn, Dai?
Diolch i Dduw. Dic Penderyn, helpa ni.
Mae gennym ni orchymyn llys, rydyn ni yma i fynd ag eiddo i ffwrdd.
Fi i ddechrau!
A phob un ohonom ni!
'Dych chi'm yn cymryd unrhyw beth!
Meddai pwy?
Dewch mas o 'ma, Jon, arhoswch nes bydd y bos yn clywed am hyn!







Ar y 30 Mai 1831, gorymdeithiodd gweithwyr i Waith Haearn Dowlais i ddatgan eu gofynion. Gwrthodasant ddychwelyd i'r gwaith nes bod eu hanghenion wedi'u diwallu.






Stryd Fawr. Merthyr Tudful.
Edrychwch, Crawshay, dyna Bruce yr Ynad.
Bruce!
A! Meistri haearn Josiah Guest, William Crawshay, sut ydych chi?


Hen fusnes ofnadwy ydy hyn i gyd, foneddigion.
Y gweithwyr yn gwrthryfel! Beth bynnag nesaf! Nid yw ddigon da.



Rwyf wedi gofyn am gymorth milwrol.
Deallaf fod yr Arglwydd Bute am anfon didoliad o filwyr.


Rwyf hefyd wedi bod yn cyflogi swyddogion heddlu newydd. Rwy'n gobeithio y bydd gennym ddigon o ddynion i helpu i wasgaru'r gweithwyr!
Syr, rwy'n credu y dylem symud oddi ar y stryd. Nid wyf yn siŵr a yw'n ddiogel yma.
Co fe'r Brenin Haearn.
Fe yw'r un sydd wedi gostwng ein cyflog!


Gwnaethoch chi addo cadw cyflog eich gweithwyr yn uchel, ond wnaethoch chi byth gadw'r addewid hwnnw.
Beth?
Mae angen i chi wasgaru!
Meddai pwy?
Pwy sy'n mynd i'n gorfodi?
Gweithwyr Cyfarthfa, rwy'n addo gwneud fy ngorau i fodloni'ch gofynion os dychwelwch i'ch cartrefi!
Mae'r heddlu yma, Crawshay.
Pam dylem ni ymddiried ynoch chi nawr?
Mae angen i chi wasgaru!
Wwff
AAaa!
Dewch, syr!
Mewn i'r Castle Inn!
Dewch, cydiwch arnyn nhw!
Dewch 'mlaen! Rhwystrwch y drws!
Dewch 'mlaen, Jenkins.
Mae'n rhaid cael neges i Farics Aberhonddu! Mae angen mwy o filwyr!



Maen nhw wedi rhwystro'r drws!
Mae'r milwyr wedi cyrraedd!
Diolch i Dduw!
Stomp!
Stomp!
Stomp!
FFURFIWCH RESI!
STOMP!

Crewyr Cadw: Comics





Ymchwyddodd y dorf ymlaen a chafodd gynnau eu tanio, ond roedd y dorf yn fwy niferus na'r milwyr. Cipiodd y gweithwyr eu gynnau a thanio yn ôl.






Roedd y gweithwyr yn wir yn dechrau rhedeg allan o fwyd. Roedd llawer yn dechrau poeni am gael eu cyhuddo o deyrnfradwriaeth, a gyda chymorth ysbiwyr, llwyddodd mwy o filwyr i gyrraedd Merthyr Tudful.





Erbyn 6 Mehefin 1831, roedd y rhan fwyaf o'r gweithwyr wedi gwasgaru. I'r rhai oedd ar ôl, aethant yn llai niferus yn gyflym, a'r diwrnod canlynol, llwyddodd milwyr i'w harestio, gan gynnwys yr arweinydd, Lewis Lewis.












Cafodd Dic Penderyn ei gyhuddo ar gam o geisio llofruddio'r Preifat Donald Black yn y terfysgoedd. Crogwyd ef ym Marchnad Caerdydd ar 13 Awst 1831.



Ni unodd gweithwyr Merthyr mewn brwydr, ond fe wnaethant uno trwy ymuno â'r undeb. O fewn dwy flynedd i farwolaeth Dic Penderyn, roedd aelodau'r undeb wedi cynyddu i 500,000 o ddynion. Roedd y gweithwyr wedi dod o hyd i'w llais. Fydden nhw byth eto'n aros yn dawel.

# Dysgu pellach i bawb



Adnoddau addysgiadol pellach, teithiau digidol, ffilmiau treftadaeth 15 munud a syniadau ar gyfer prosiectau dysgu, yn cynnwys lliaws o gomics a gweithgareddau celf comics, ar gael ar ein gwefan: Cadw.llyw.cymru/dysgu

Dod o hyd i le i'w ymweld
**Cadw.llyw.cymru/ymweld**

Cof Cymru
Asedau Hanesyddol Cenedlaethol Cymru
**cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/cof-cymru**

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
Rhestr enwau lleoedd hanesyddol yng Nghymru
**rcahmw.gov.uk/discover/list-of-historic-place-names**

Coflein - Catalog ar-lein o archaeoleg, adeiladau, treftadaeth ddiwylliannol ac arforol yng Nghymru
**Coflein.gov.uk**

Archwilio
Cofnodion Amgylcheddol Hanesyddol Cymru
**Archwilio.org.uk**

Dod o hyd i adnoddau dysgu Cadw a nifer o sefydliadau eraill celfyddydol, treftadaeth a diwylliannol ar Hwb
**Hwb.cymru**

**@CadwWales**

**@CadwWales**

**@CadwCymruWales**